"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1876. [RHIF 44.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Paul a Nero	169
Yr Aifft a Chanaan	175
Groeg	178
Cyfraith y Tarw a'r Bâd	180
Yr Ysgol Sul	181
Adolygiad y Wasg	183
Mesur Addysg Elfenol 1876	186
Ysgol Gân y Diacon	186
Hanesion	188
Marwgofion	189
Barddoniaeth	191

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1876. [RHIF. 44.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PAUL A NERO.

Y MAE y bennod olaf yn llyfr Actau yr apostolion yn terfynu yn dra disymmwth. Hi ydyw diwedd y rhan hanesiol o'r Testament Newydd. Y mae yn dwyn yr apostol Paul i Rufain, prif ddinas y byd gwareiddiedig. Dywedir yn y ddwy adnod olaf yn y llyfr, "A Phaul a arhoes ddwy flynedd gyfan yn ei dŷ ardrethol ei hun, ac a dderbyniodd bawb a'r oedd yn dyfod i mewn ato, gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyda phob hyfder yn ddiwahardd." Er fod caniatad wedi cael ei roddi iddo i aros yn ei dŷ ei hunan, etto yr oedd dan wyliadwriaeth y llywodraeth Rufeinig, ac yn aros i'w brawf. Yr oedd wedi appelio at yr Ymherawdwr oddiwrth Ffestus, yr hwn oedd lywodraethwr talaeth Judea. Ar ei ddyfodiad cyntaf ni chafodd ond gwrandawiad rhagarweiniol.

Yr oedd wedi hir ddymuno ac arfaethu myned i weled Rhufain, lle yr oedd cynnulleidfa Gristionogol fechan wedi ei sefydlu, at yr hon yr oedd wedi ysgrifenu llythyr, yr hiraf o'r epistolau sydd genym ni. Ysgrifenodd y llythyr yma pan oedd ar ei ffordd i Jerusalem, ar y daith sydd yn cael ei desgrifio yn yr ugeinfed bennod yn yr Actau. Ymddengys oddiwrth y bennod hon ei fod yn awyddus iawn i gario yr efengyl i barthau pellaf Ewrop. Meddyliai am, a chynlluniai daith i'r Yspaen gyda'r amcan yma. Ac yn ei waith yn ysgrifenu at y Cristionogion Rhufeinig, dywedai wrthynt, "Pan elwyf i'r Yspaen, myfi a ddeuaf atoch chwi," a phan yn penderfynu myned i Jerusalem ar y daith yma, dywedir, "Wedi iddo dramwy trwy Macedonia ac Achaia, fyned i Jerusalem; gan ddywedyd, Wedi i mi fod yno, *rhaid i mi weled Rhufain hefyd.*" Hawdd ddigon y gallwn ddeall beth oedd yn achosi yr awydd daer yma yn meddwl yr apostol. Yr oedd ugain

mlynedd wedi ehedeg ymaith oddiar pan gafodd ef ei wneyd mewn modd sydyn a gwyrthiol yn Gristion. Yn ystod yr ugain mlynedd hyny yr oedd wedi teithio llawer iawn yn y Dwyrain, ac wedi cyfarfod ag amryw bersonau enwog a galluog, ac wedi gweled dinasoedd a phobl y gwledydd hyny oedd â fynai Jerusalem â hwy. Yr oedd ar daith i Damascus, pan gafodd ei droi o fod yn erlidiwr i gennadwr hedd, pregethwr tangnefedd a llawenydd yn yr Yspryd Glân. Adnabyddid Damascus pryd hyny, fel yn bresenol, y ddinas henaf yn y byd. Hefyd, yr oedd wedi teithio yn Arabia, yn Syria, ac ynysoedd dwyreiniol Môr y Canoldir, ac wedi myned trwy Asia leiaf, lle yr arosodd ddwy flynedd yn Ephesus, y ddinas fwyaf orwych a chyfoethog yn y rhan hyny o'r byd. O Asia aeth drosodd i Macedonia a Groeg. Yno yr oedd wedi byw yn Corinth, y ddinas fwyaf foethus yn y byd, ac wedi pregethu yn Athen, y fwyaf enwog a dysgedig. Ond yr oedd yr holl ddinasoedd yma, nad pa mor enwog ar gyfrif y naill beth a'r llall, yn cael eu llywodraethu gan lywodraethwyr o'r brif ddinas, Rhufain, i'r hon yr oeddynt oll yn danfon teyrnged, neu dreth. Yr oeddynt oll yn derbyn cyfreithiau a llywodraethwyr oddiyno. Siaradent yr iaith Rhufeinig yn y llysoedd ac yn y swyddfaoedd cyhoeddus, ac yr oedd yr holl swyddwyr yn ddarostyngedig i'r Ymherawdwr. Efe oedd yn eu pennodi a'u symmud yn ol ei ewyllys. O ganlyniad, pa fwyaf a welai yr apostol Paul o orwychder y dinasoedd yma, neu gyflwr eu llywodraethwyr, mwyaf awyddus rhaid ei fod i fyned cyn diwedd ei oes, i'r ddinas yr hon safai uwchlaw i'r oll o'r lleill yn mhob ystyr braidd; ac os yn bossibl hyd y nod i gyfarfod â'r Ymherawdwr, i'r hwn oedd yr holl lywodraethwyr yma yn ufyddhau.

Pan, gan hyny, y darfu i Ffestus, llywodraethwr Judea, holi Paul, gwnaeth ef hawlio yr hawl oedd gan bob dinasydd, a mynai gael ei holi o flaen yr Ymherawdwr. Y mae yn beth tebygol ddigon y buasai barn a phenderfyniad Ffestus yn ei ffafr. Ond yr oedd yr hen filwr mor awyddus am gyfle i anerch yr Ymherawdwr Rhufeinig yn bersonol, ac i ymweled â Rhufain, gyda'r fath fanteision ag a gawsai hyd y nod fel carcharor yno, fel na ddarfu iddo gymmeryd y cyfleusdra i gael, o bossibl, ei ryddhau gan Ffestus, ond appeliodd at yr Ymherawdwr, yr hwn ar y pryd hwnw oedd Nero. Y mae Paul yn siarad am dano ef fel Cæsar, enw a gymmerodd deuddeg o Ymherawdwyr oddiwrth Julius Cæsar, y cyntaf o'r rhif o'r enw hyny. Y mae yn cael ei alw hefyd yn Augustus, enw a roddwyd i amryw o'r Ymherawdwyr Rhufeinig.

Cyrhaeddodd Paul Rufain, wedi y fôrdaith beryglus a ddesgrifir yn llyfr yr Actau, yn Ngwanwyn y flwyddyn 60, neu 61 o'r cyfnod presenol. Y mae y llyfr uchod yn rhoddi desgrifiad o'r derbyniad a gafodd. Ond rhaid yw i ni ymgynghori ag awdurdodau ereill er cael allan sefyllfa pethau fel y cafodd ef hwynt, ac amgylchiadau ei brawf. Y mae yr awdurdodau yma yn ein gwneyd yn adnabyddus â Nero, at yr hwn oedd wedi appelio.

Yr oedd y Nero yma ar yr amser hwn yn naw-ar-hugain oed. Yr oedd wedi cael ei gyhoeddi yn Ymherawdwr bum mlynedd cyn hyny,

ar farwolaeth yr ynfyd a'r creulawn Claudius. Bachgen o gynneddfau rhagorol, gorŵyr yr Ymherawdwr, a mab i fam uchelgeisiol oedd; yr oedd wedi cael yr addysg oreu allasai Rhufain roddi iddo. Ei fam ydoedd y prydferth Agrippina, yr hon wnaeth bob ymdrech i sicrhau y goron iddo ef yn moreu ei oes, a llwyddodd i hyny. Pan ddechreuodd deyrnasu yr oedd ganddo yn brif weinidogion Seneca a Barrhus, y cyntaf yr athronydd mwyaf enwog yn ei ddydd, a'r llall y milwr goreu yn yr amser hyny. Blagurodd yr ymherodraeth dan eu gofal hwy, a meddylid y buasai Nero y tywysog mwyaf dynol a hael a adnabyddwyd erioed. Mor lleied allwn ddirnad am ddyfodol bachgen dwy-ar-bumtheg oed! Golygai yn dda, mor bell ag y gallwn ni weled. Ond ni feiddiai ei feistr Seneca, ac ni ofalai ei fam am osod un ataliad ar yr un o'i nwydau a'i chwantau, oddieithr fod y cyfryw yn groes i'w cynlluniau eu hunain. Gadewid ef i borthi pob blys hunanol a phechadurus, isel a diraddiol. Chwyddai ei nwydau ar yr hyn yr ymborthent arno. Felly yn nghwrs pedair neu bum mlynedd, o gylch yr amser y daeth Paul i Itali; yr oedd teyrnasiad llwyddiannus Nero ar ben, a dechreuodd Rhufain gael allan a theimlo ei bod yn cael ei llywodraethu gan ddyn ieuanc cnawdol, creulawn, a meddw, pechodau yr hwn oedd yn ei dywys yn gyflym iawn allan o'i synwyrau, a'r hwn oedd yn gwneyd pob ymdrech i ddymchwelyd y rhai oeddynt wedi bod yn offerynol i'w ddwyn i'w sefyllfa bresenol. * * *

Yr oedd teimlad cas, eiddigeddus, wedi ymgodi rhyngddo ef a'i fam. Yn y gwanwyn, fodd bynag, a Nero yn aros yn Baiae, yn ei balas hafol, danfonodd genad ati i ddyfod i ymweled ag ef yno, fel y gallasent gymmodi â'u gilydd. Gyda mawr lawenydd derbyniodd Agrippina y gwahoddiad, a daeth i Baiae dros y dwfr i gadw gyda'i mab yno wyliau Minerva, y rhai a gymmerent le yn niwedd mis Mawrth. Derbyniodd Nero hi, yn ol pob ymddangosiad allanol, yn gariadus iawn, cymmerodd hi wrth ei llaw a chofleidiodd hi, ac yna cymmerodd hi i'w dŷ, o'r hwn oedd i gael ei chymmeryd mewn llong arall ar lŷn Baiae, i'r palas yn yr hwn oedd i aros. Yno darfu iddi hi a'i mab aros gan siarad gyda'u gilydd hyd yr hwyr. Yr amcan mewn golwg ganddo wrth siarad cyhyd â hi oedd, fel y gallasai hi fyned ar y llŷn yn y nos. Yn y diwedd dymunodd nos dda iddi, a hyny gyda mwy o garedigrwydd ymddangosiadol o leiaf, nag a ymddangosai yn angenrheidiol ar ei waith yn ymadael â hi dros can lleied o amser. Gwnai hyn yn ddiau er mwyn ymddangos fel pe byddai am gael ei gymmodi â hi, neu ynte o herwydd fod ei galon yn toddi rhyw gymmaint wrth feddwl am yr amcan oedd ganddo mewn golwg.

Yr oedd ei long wedi cael ei haddurno fel yr oedd yn gweddu i Ymherodres, ac wedi ei threfnu yn y fath fodd ag y buasai tô y caban, wrth arwydd fuasai yn cael ei rhoi, yn syrthio ar y sawl oedd ynddo, ac yn eu llethu i farwolaeth mewn moment. Hyn oedd cynllun Nero i osod terfyn ar eiddigedd ei fam heb gael ei ddrwgdybio o famladdiad. Ni fuasai ond ychydig dystion ar y llŷn, a golygid dywedyd fod llongddrylliad, neu ryw anffawd arall wedi cymmeryd lle. Wrth gwrs, nid aeth i'r llong ei hunan, ond wedi rhoddi ffarwel cynhes i'w fam, dych-

welodd i'w balas i aros am newyddion y fôrdaith. Yr oedd y noson yn glir, a'r sêr yn dysgleirio. Eisteddai Agrippina ar ei sedd yn y caban, gan siarad yn ffraeth a chalonog wrth y gwyddfodolion am edifeirwch ei mab; am yr hyn oedd wedi cymmeryd lle; ac am adnewyddiad eu cyfeillgarwch, pan mewn eiliad y syrthiodd bwrdd y llong ar eu penau. Yr oedd pwysau mawr o blwm wedi cael ei osod arno, a llethodd i farwolaeth y swyddog gyda'r hwn y siaradai, ond gorphwysodd ar ochrau uchel ei sedd hi, y rhai oeddynt lawer cadarnach nag y bwriedid iddynt fod, fel y diangodd hi rhag niwed a marwolaeth. Darfu i Acerroni, yr hon oedd yn gweini arni ddianc hefyd. Gwaeddodd y morwyr fod y llong yn suddo. Neidiodd y menywod i'r dwfr, gan dybied nad oedd dim yn eu haros ar y llong ond marwolaeth. Neidiodd rhai o'r dynion yn mlaen er cyflawnu arch eu harglwydd mewn modd annghelfydd ond sicr. Darfu i Acerroni, cyfeilles ffyddlon yr Ymherodres, gyda defosiwn a didwylledd diail, ddwyn ar ei phen ei hun ergydion a brathiadau y llofruddion uwchben, trwy lefain, fel pe ar foddi, "Achubwch fi; myfi yw mam Nero!" Pan yn llefaru y geiriau hunanymwadol yma, lladdwyd hi gan y llofruddwyr uwchben, tra yr oedd yr Ymherodres, mewn tawelwch, yn cael ei dàl i fyny gan weddillion y llongddrylliad, yn nofio i'r làn. Felly methodd Nero gyrhaedd ei amcan dirgelaidd, ac etto, gwyddai na allai atal cynlluniau dieflig pellach i gwmpasu ei amcan. A thranoeth wedi achubiaeth ei fam o'i dyfrllyd fedd, anfonodd filwyr i'w phalas, ac yno y cawsant hi yn ddiamgeledd a neb i'w chyssuro, a gosodasant ferch a mam i Cæsar i farwolaeth.

At un felly yr appeliai Paul ato:—Nero galongaled, diegwyddor, a di-Dduw. Yr oedd yr apostol, yr hwn a auafodd yn Melita, wedi cyrhaedd rhyw amser yn mis Mawrth i Puteoli, tref yn agos i Baiae. Y mae yn beth tebygol ddigon fod ei long wedi cael ei rhwyfo at y pier yn Puteoli, fel y daeth y llong freninol â'r Ymherodres i gyfarfod â'i mab yn Baiae. Dymunai y brodyr Cristionogol yn Puteoli iddo aros gydâ hwynt am saith niwrnod * * * . Yna aeth yr apostol tua Rhufain, taith o gylch can milldir. Clywodd y Cristionogion yno ei fod ar ddyfod, ac ar hanner ei ffordd cyfarfyddodd â rhai o honynt,—dynion oeddynt mwyaf tebyg wedi bod yn gaethweision, y rhai, pan welodd yr apostol a gymmerodd gyssur.

Teithiai Nero hefyd yn fwy araf nag ef i Rufain. Yn ofnus yn nghylch terfysg ei fyddin wedi cyflawni y fath drosedd, ysgrifenodd at y Senedd, gan haeru ei fod wedi gorchymyn lladd Agrippina, wedi iddo ef ddàl llofruddiwr oedd wedi cael ei ddanfon ganddi hi i'w lofruddio ef. Yr oedd y Senedd mor wasaidd iddo fel y darfu iddi gyflwyno diolchgarwch i'w duwiau am ei lwyddiant, a phennodi gwledd flynyddol er côf am yr anrhydedd (?) o ladd ei fam, a phenderfynwyd i ystyried dydd ei genedigaeth bob amser fel diwrnod anffodus, ac nad oedd dim gwaith i gael ei ddechreu yn y Senedd arno. Derbyniodd Nero y newyddion yma yn llon, a buont yn foddion, i ryw raddau, i dawelu ei ofnau. Mentrodd un o'i wenieithwyr ei sicrhau, fel oedd yn aros i wrando, "fod enw Agrippina yn cael ei gashau, ac y buasai y

bobl yn clywed am ei marwolaeth gyda llawenydd, ac os yr elai rhag ei flaen yn ddewr y cawsai ei barchu ganddynt." "Cafodd hyn yn wir," meddai yr un hanesydd, "yn fwy amlwg nag oedd wedi cael ei addaw. Daeth y bobl allan yn gyrff trefnus fel etholwyr i'w gyfarfod; unodd y Senedd yn yr orymdaith mewn gwisgoedd gwledd; yr oedd minteioedd o fenywod a phlant wedi eu trefnu yn drefnus yn ol eu rhyw a'u hoedran, ac yn eistedd ar seddau wedi eu codi yn weddol uchel ar bob ochr i'r ffordd, ar hyd yr hon y daethai fel y gallent fod yn llygad dystion o'i fynediad i mewn, fel pe buasai buddugoliaeth wedi cael ei hennill. Felly yr aeth gorchfygwr pobl gaethiwus, fel y gwna gorchfygwyr buddugoliaethus, i'r ddinas gan roddi diolch, ac yna yn ymollwng gyda phob tueddiad â chwant drwg a chnawdol, yr hyn, hyd yma, oedd ryw gymmaint o barch i'w fam, er mewn modd anmherffaith iawn, wedi atal." Os, fel y mae yn debygol ddigon, i adroddiad cyntaf yr apostol Paul gymmeryd lle yr hâf yma, yr oedd hyny yn ystod yr amser yr oedd Nero mewn cyfyngder meddwl, yr hwn a ganlynodd ei weithred, neu ei bechod gwarthus at yr hwn ydym wedi cyfeirio. Cymmerodd le yn mhresenoldeb Seneca, yr hwn, fel gweinidog yr ystâd, a roddai gyfarwyddiadau pa fodd i gario y cyfryw allan. Nid ydym i fod yn ddisylw o Seneca yn ein gwaith yn astudio y cyfnod yma, oblegyd fel yr oedd pob gallu yr amser hwnw wedi ei ganolbwyntio yn Nero, felly yn Seneca yr oedd yr esiampl oreu o'i ddysgeidiaeth. Yr oedd wedi dwyn Nero i awdurdod; wedi arafu ei ynfydrwydd pryd bynag gallasai, a chyda'i gydlafuriwr, yr oedd wedi gweinyddu llywodraeth gyffredin yr ymherodraeth gyda'r anrhydedd mwyaf, tra yr oedd y bachgen yn treulio allan ei nerth a'i fywyd mewn rhyseddwaith yn ei balas. Beiddiai Seneca ddweyd rhagor na neb arall wrth Nero. Yr oedd ar y blaidd ieuanc ofn ei hen athraw yn mhen llawer o amser wedi iddo brofi gwaed. Etto cyfundrefn wasaidd oedd eiddo Seneca, yr oedd y goreu o foesoldeb Rhufeinig, ac etto yn isel. Yr oedd Seneca y mwyaf dewr yn mhlith cymmeriadau ei ddydd. Y mae ef yn gysgod o'u rhagoriaethau, fel y mae Nero yn batrwn o'u gallu a'u addurniadau. Ac etto yr oll a allai Seneca fentro oedd dirgymhell y teyrn ieuanc i gyflawni y drygau lleiaf yn ei olwg. Oddiwrth anrhaethio tiriogaeth denai ef trwy alw ei sylw at alanasdra y *circus*. Oddiwrth lofruddio Seneddwr denai ef i foddio rhyw nwyd gnawdol gartref. A gwnaeth Seneca hyn gyda'r cymhelliadau a'r dymuniadau goreu. Dywedai iddo arfer pob awdurdod oedd yn ei law, a meddyliai ei fod wedi gwneyd hyny. Nid oedd ganddo ef, yr hyn oedd gan Paul, sef, cymhelliadau i gynnyg i Nero. Ni allai ddweyd wrtho i ba beth oedd Duw wedi ei greu, a'r hyn a ewyllysiai iddo fod. Ni allasai ei rybuddio i gadw oddiwrth y drwg, ond yn unig oblegyd rhesymau hunanol; ac yr oedd y rhai hyny yn rhesymau nad oedd y bachgen yn dewis eu cofio; ac yn wir ni allasai eu deall.

Oddiwrth arholiad cyntaf yr apostol Paul, y canlyniadau uniongyrchol oedd, "yn gymmaint a bod fy rhwymau i yn Nghrist yn eglur yn yr holl lys, ac yn mhob lle arall," ac i fod hyd y nod, "rhai sydd o deulu Cæsar," wedi cael eu gwneyd yn rhai o deulu y ffydd. Y mae

yn ein hysbysu yn nghylch hyn yn ei lythyron ei hunan. Phil. i. 13; iv. 22; i. 23. Nid yw hanes yn ein hysbysu beth arall ddygwyddodd, neu a fu y canlyniad uniongyrchol o'r arholiad. Ond nid anhawdd dychymygu sut yr ymddangosai Paul, Nero, a Seneca, ar y fath amgylchiad. Nid oeddar Paul ddim ofn doethineb Seneca, ar un llaw, na chreulondeb Nero, ar y llaw arall. Ychydig wythnosau cyn hyn, pan oedd y Senedd Rhufeinig wedi canmol y gwaith o lofruddio mam, bu un dyn o'r enw Paetus, yn ddigon hyf a dewr i atal rhoddi ei bleidlais, trwy ddywedyd, "Gall Nero fy lladd i, ond ni all fy niweidio." Gallasai Paul ddywedyd hyn, ond gallasai ddweyd rhagor hefyd. Gwyddai yntau, os buasai Nero hyd y nod i'w ladd na allasai ei niweidio, ac heblaw hyny, pe buasai yn ei ladd, ni fuasai yn gwneyd dim ond gwasanaethu teyrnas Crist yn fwy trwy hyny. Yr oedd Paul wedi gweled digon o fywyd, ond dymunai fyw i ledaeni yr efengyl. "Canys," medd efe, pan yn y carchar yn Rhufain, "y mae yn gyfyng arnaf o'r ddau tu, gan fod genyf chwant i ymddattod, ac i fod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw." Gallasai Paul gan hyny wneyd yr hyn na allasai Paetus y Rhufeiniwr wneyd. Ni ddarfu Paetus gynnyg dim mewn gwrthwynebiad i greulondeb Nero. Ni wnaeth ddim ond dwyn ei lid arno ef ei hunan a'i gyfeillion. Ni allasai Seneca ychwaith gynnyg dim. Ni allasai ddim ond dweyd wrth ddynion fod yn rhaid iddynt ddyoddef yn ddewr. Gallasai Paul gynnyg, dysgu, a dal ar yr holl efengyl. Wrth Nero gallasai ddweyd, fod teyrnas Dduw yn mhob man o'i amgylch wrth ei law, i'r hwn oedd ef y gormeswr, Seneca yr athronydd, a Phaul y carcharor, yr un fath yn ddarostyngedig. A chan mai dyma y genadwri a roddodd yr Iesu i'w holl genadon, nid oes yr un amheuaeth na ddarfu i Paul wasgu hyn ar feddwl Nero, sef, "fod teyrnas Dduw wrth law." Dysgai yr Ymherawdwr, hyd y nod pe byddai ef farw, nad ofnai am orchfygiad y deyrnas oedd ef yn ei chyhoeddi yn y diwedd.

Danfonwyd ef yn ol i'w dŷ, i aros arholiad arall. Ond yn mhen dwy flynedd wedi ei ddyfodiad i'r lle, cafodd ei holi a'i ollwng yn rhydd. Nid oedd wedi cyflawni yr un trosedd yn erbyn neb o drigolion Rhufain, am nad oedd proffes o Gristionogaeth ddim yn cael ei ystyried yn drosedd y pryd hyny. Yr oedd at ei ryddid i fyned i'r Yspaen, fel y gwnaeth, ac i deithiau meithach nag erioed, trwy ranau ereill o Ewrop.

Yn awr wrth ddiweddu, gwelwn allu bydol yn dyfod i'r amlwg yn nghymmeriad Nero, gallu ymresymiadol gwanaidd yn Seneca, a gallu moesol annghydmarol fwy Apostol Mawr y Cenedloedd. Y mae pregethu yr efengyl yn cael ei osod o'r neilldu ar y cyntaf am dymhor, yn aros ei amser, ac yn y pen draw yn cario y fuddugoliaeth ar bob gwrthwynebiad. Yn yspryd yr hen filwr da i Iesu Grist, bydded i ti, hoff ddarllenydd, yn gystal a minau, ymaflyd yn y gwaith a berthyn yn agos i'n cyssur presenol a'n hiachawdwriaeth dragywyddol yn y nef.

S. C. H.

YR AIFFT A CHANAAN.

JERUSALEM, SHILOH, BETHEL, SICHEM.—LLYTHYR XIX.

Mawrth 10, Dydd Gwener.—Heddyw dyma'r pebyll yn cael eu tynu i lawr, a pharotoadau yn cael eu gwneuthur i gychwyn. Rhyw bedwar ar ddeg o'r parti yn ein gadael i ddychwelyd i Jaffa. Drwg genym i ni golli ein *dragoman* Alexander a'i gynnorthwywr Mr. Etzensberger, y rhai y mae gofalon ereill yn eu galw i ffwrdd. Enw'r *dragoman* sydd yn myned gyda ni yw Timoleon (yr acen ar y sill olaf ond un), dyn mor ofalus, mor garedig, mor dwymgalon ag y gellir ddymuno. Ond druan, dygwyddodd anffawd iddo ar y diwrnod cyntaf, yr hyn a fu'n achos llawer iawn o annghyfleusdra yn ystod y gweddill o'r daith. Yr ydym yn cychwyn am ddeg gyda bwriad i gael *lunch* yn Bethel. Beitin ydyw'r enw presenol. Rhai o honom yn darllen gyda dyddordeb hanes taith Jacob i Padan-aran, a hanes breuddwyd yr ysgol a gyrhaeddai o'r ddaear i'r nefoedd, ac angylion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar hyddi (Genesis xxviii. 12). Yma yr adeiladodd Jeroboam deml ac yr aberthodd i'w eilunod (1 Bren. xii. 28, 29). Geilw Hosea Bethel yn Beth-afen, h.y., tŷ eilunod, neu yn ol rhai tŷ gwagedd, tŷ'r diddymdra (Hosea iv. 15, x. 5). Gweler hefyd 2 Bren. xxiii. 15, &c., Ezra ii. 28, Neh. vii. 32. Fel hyn y dywed Amos (v. 5),—"Ond nac ymgeisiwch â Bethel, ac nac ewch i Gilgal, ac na thramwywch i Beerseba: o herwydd gan gaethgludo y caethgludir Gilgal, a Bethel a fydd yn ddiddym." Os yr un yw Bethel a Beitin, nid oes dim sicrwydd am hyny, mae Bethel wedi myned yn ddigon diddym. Nid oes yma ond ychydig o fwthynod, a'r rhai hyny mor frwnt a diolwg â dim a welsom erioed. Nid oedd gan neb o honom ddigon o 'stymog i fyned i mewn i un o'r bwthynod yma i gymmeryd *lunch*, felly awd yn y blaen trwy le corsog, a thrwy berllan fawr o goed ffigys, nes i'r gwlaw beidio, ac i ninau ddyfod at le creigiog, ac yno y cawsom dipyn i'w fwyta. Cafodd y ceffylau amser caled. Cwympodd ceffyl Mr. Cook tano yn nghanol y baw a'r llaid, ac yr oedd golwg foneddig arno yn dyfod at y byrddau ceryg i blith y *ladies*. Ein hamcan ydyw cyrhaedd Sinjil y noson hon, ond cawsom fod ein pebyll wedi eu gosod i fyny mewn dyffryn—ni wyddem ei enw ar y pryd, sef Dyffryn y Lladron, a hyny oedd dda. Yr oedd ddigon drwg fel yr oedd, er na ddaeth yr un lleidr yn agos atom; ond bu'n gwlawio trwy'r nos, a hyny'n drwm iawn, ac yr oedd digon o waith i amryw o'r gwasanaethyddion i edrych na byddai'r gwynt yn myned â'r pebyll i ffwrdd. Safai Sinjil ar ben y bryn, ac uwchlaw Shiloh, a'r rheswm na fuasai'r pebyll wedi eu gosod yno wrth bob tebyg oedd, am y buasai mwy o afael gan y gwynt yno.

Mawrth 11.—Ar ol y gwynt a'r gwlaw, dyma foreu hyfryd i adnewyddu ychydig ar galon ac yspryd pob un o honom. Mae golwg ogoneddus ar y bryniau oddiamgylch. Cyn hir yr ydym yn cyfarfod â chwmni o filwyr Tyrcaidd, a dau neu dri o ddynion wedi eu cadwyno yn nghyd fel carcharorion—yr olwg arnynt yn ddigon i oeri calon dyn.

Cymmeriad canolig sydd i lawer o drigolion yr ardal, ac y mae hanes y creulonderau a gyflawnwyd yma gynt yn ofnadwy. Yr ydym yn troi ychydig oddiar y ffordd er talu ymweliad â Siloh. "Wele y mae gwyl i'r Arglwydd bob blwyddyn yn Siloh, o du y gogledd i Bethel, tua chyfodiad haul i'r brif-ffordd y sydd yn myned i fyny o Bethel i Sichem, ac o du y dehau i Libanus," (Barnwyr xxi. 19). Yn Siloh y gosodwyd y tabernacl i fyny wedi darostwng y wlad a dosparthu y tir (Josua xviii. 1—10). Darllener yn mhellach am Hannah, Samuel, Eli (1 Samuel i—iv); am bresenoldeb yr arch a merched Siloh yn dyfod allan i ddawnsio (Barnwyr xxi. 20—23); am symmudiad yr arch (1 Sam. iv—vi); ac yn mhellach Josua xix. 51; 1 Bren. xi. 29; xii. 15; xiv. 2; Ps. lxviii. 60, &c.; Jer. vii. 12, 14; xxvi. 6. Nid oes yma yn bresenol ddim ond y magwyrydd, gweddillion hen eglwys—eglwys y Croesgadwyr, a cholofnau yn wasgaredig yma a thraw. Mae yma hen goeden hynod iawn, ond ni fydd yno yn hir, oblegyd y mae pob ymwelydd yn myned â mwy neu lai o honi i ffwrdd. Oddiyma yr ydym yn cychwyn trwy dir wedi ei aredig, nes dyfod i ddyffryn Lubah, ac yma gerllaw'r creigiau yr ydym yn cymmeryd ein nawn-fwyd. Blodau heirdd gerllaw, yr *anemone*, *cyclamen*, &c. Y ffordd heddyw yn drwm iawn, a'r daith felly yn anhawdd. Yr ydym yn pasio gerllaw Ffynnon Jacob, ond nid oes dim amser i aros yn bresenol,—

"Cysgodau'r nos ymledant dros y tir;"

ac y mae eisiau cyrhaedd Nablous arnom. Yr ydym yn troi ar y llaw aswy, ac i fyny i'r dyffryn, mynydd Gerizim ar y naill law i ni, ac Ebal ar y llaw arall. Cwyd y mynyddau yma 800 troedfedd uwchlaw'r dyffryn, ac y mae'r dyffryn 1,700 uwchlaw Mor y Canoldir. Mae poblogaeth Nablous (yr ystyr yw, y Dref-newydd, Neapolis,) yn16,000, tuag 11,000 yn Fohametaniaid, cant neu ddau o Iuddewon, ac o Gristionogion rhwng 500 a 700. Nid oes ond rhyw 150 o Samariaid yn awr. Yr oedd yn dywyll cyn i ni gyrhaedd ein pebyll.

Mawrth 12.—Boreu hyfryd iawn. Gwasanaeth yn *mission rooms* El Karey. Talu ymweliad â'r eglwys Samaritanaidd, lle'r ydym yn cael y fraint o weled yr hen gopïau Samaritanaidd o'r Pentateuch, un o honynt, yn ol yr hanes, yn perthyn i oes y Patriarchiaid, ac wedi ei ysgrifenu gan Abisham, orwyr Aaron. Rhol o *parchment* ydyw, wedi ei ysgrifenu yn golofnau, 13 modfedd o ddyfnder wrth 7½ o led, pob colofn yn cynnwys tua 70 o linellau, a'r holl rol 110 o golofnau. Mae'r crwyn yn gyfartal o ran maint, ac yn mesur 25 modfedd bob un o hyd wrth 15 o led. Priodolir y rhol yma gan Tischendorf i'r chweched canrif o oed Crist.

Cychwyn i ben mynydd Gerizim. Llawer iawn o weddillion yr hen deml Samaritanaidd, yn mesur 240 tr. un ffordd a 254 tr. y ffordd arall. Mae *site* y deml yr ardderchocaf yn yr oll o Palestina. Yma y mae'r Samariaid yn myned trwy seremoniau'r Pasg, &c. Ond y mae dyddordeb penaf y mynyddau yma feallai yn gyssylltiedig â'r "fendith a'r felldith" y sonir am danynt yn Josua viii. 30—35. Gweler hefyd Deut. xxvii., xxviii. Ar yr achlysur yma yr oedd cynnulleidfa Israel

yn llanw'r dyffryn, yr oedd yno le i gannoedd o filoedd i sefyll a chlywed y gorchymynion, a byddai pob gair yn glywadwy i'r rhai a safent ar bob un o'r ddau fynydd. Peth cyffredin yw i deithwyr i sefyll, rhai ar un mynydd ac ereill ar y llall, a chlywant eu gilydd yn rhwydd ddigon.

Pan oeddym yn cychwyn i waered oddiar y mynydd, ac yn tynu cyfeiriad tuag at Ffynnon Jacob, daeth rhyw grotyn atom yn gofyn am *bacshish*, ac am na chawsai ddim dechreuodd fwrw ceryg ar ein hol. Barnai fod treth yn ddyledus arnom am ein bod wedi cael gweled y deml, ond nid oedd neb o honom yn barod i gydnabod ei hawl. Gwnaeth y rhan fwyaf o honom y goreu o'n ffordd i ffoi; ond yr oedd un Ianci oedd yn hoff o ddarlunio cymmeriad Caleb, yn awyddus i ddangos ei wroldeb, a gwnaeth hyny trwy dynu ei *bistol* allan. Mae'r Ianciod yn rhy barod o lawer i dynu eu harfau allan. Yn anfynych y mae hyny yn ateb un dyben da.

Wel, dyma ni wrth Ffynnon Jacob. Dywedir fod pawb, Iuddewon a Christionogion, Samariaid a Mohametaniaid yn cytuno mai hon ydyw Ffynnon Jacob, "ac efe ei hun a yfodd o hono, a'i feibion a'i anifeiliaid." Mae'r sefyllfa yn ateb i'r hanes yn y Testament Newydd. Tebyg iawn fod yr Iesu wedi dyfod ar hyd yr un llwybr, neu yn agos felly, ag y daethom ninau. Ac efe "yn ddiffygiol gan y daith a eisteddodd felly ar y ffynnon." Yma y cymmerodd yr ymddiddan noddedig le rhyngddo ef a'r wraig o Samaria, ac yr adroddodd y geiriau bythgofus, "Pwy bynag sydd yn yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn; ond pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol," (Ioan iv). Cawsom bob o ddracht o'r ffynnon. Yr oedd yn ddwfr purion, ond yfasom ei gystal lawer gwaith. Mae'n ffynnon werthfawr iawn yn yr ardal yma, a thua 75 troedfedd o ddyfnder, ac yn awr tua hanner llawn. Cawsom yfed o'r dwfr trwy garedigrwydd rhywun oedd wedi dyfod yno "i dynu dwfr." Gerllaw y mae bedd Joseph, tua 300 llath oddiyma fe allai. Ar ei wely angeu "tyngodd Joseph feibion Israel, gan ddywedyd, Duw gan eich gofwyo a'ch gofwya chwi y dygwch chwithau fy esgyrn i fyny oddiyma." A darllenwn yn Josua xxiv. 32, "Ac esgyrn Joseph, y rhai a ddygasai meibion Israel i fyny o'r Aifft, a gladdasant hwy yn Sichem, mewn rhan o'r maes a brynasai Jacob gan feibion Hemor, tad Sichem, er can darn o arian, a bu i feibion Joseph yn etifeddiaeth." Tybir fod ei esgyrn wedi hyny wedi cael eu trosglwyddo i'r "Mosque yn Hebron." Ymddengys hwn fel yr unig ffordd foddhaol i ddadrys yr anhawsdra ei fod wedi ei gladdu yn Shechem a Hebron.

Ystyrir Nablous yn un o'r dinasoedd hynaf yn y byd. Barna rhai mai'r un yw Shechem a Sichar Efengyl Ioan, tra mae ereill yn ystyried Shechem yn rhy bell oddiwrth Ffynnon Jacob i ateb yr hanes. Saif Shechem dros filldir o bellder, ac y mae digon o ddwfr yn nes, a dwfr rhagorol. Ond barna rhai fod Shechem un amser yn estyn bob cam hyd at Ffynnon Jacob. Tyb rhai yw fod Sichar Efengyl Ioan yr un a rhyw bentref oedd gerllaw'r ffynnon, ac yn ei golwg; fod Shechem

yn rhy bell, ac o'r golwg. Pan yn dyfod i lawr o fynydd Gerizim, sylwais ar bentref bychan ychydig y tu hwnt i fedd Joseph, a gofynais i un o'r brodorion beth oedd ei enw. Atebodd Sacar, neu rywbeth yn debyg. Yn awr, meddwn i, dyma le yn ateb yn gywir i ofynion yr hanes. Mae yn ngolwg y ffynnon, ac o fewn 12 neu 15 cant o latheni iddi. S.

GROEG.

Groeg oedd yn ffinio ar y gogledd gan Illyricum, Moesia, a Thrace; y dehau gan Fôr y Canoldir; y dwyrain gan yr Archipelago; a'r gorllewin gan y môr Adriaidd. Yn ei chyflawn helaethder yr oedd yn wlad fawr iawn, yn agos cymmaint a Thwrci ddiweddar; ond Groeg y Testament Newydd a feddylir y rhan ddeheuol.

Groeg oedd un o'r gwledydd mwyaf clodfawr yn yr hen fyd; y fwyaf enwog mewn gwareiddiad a moesoldeb; am ei rhyddid a'i chyfreithiau godidog; am ei philosophyddion; a'i milwyr; am ei hinsawdd; ei dinasoedd uchelwych; ei dolydd a'i maesydd hyfryd; ei bryniau uchel; a'i dyffrynoedd danteithiol. Rhai o ddynion mwyaf enwog yr hen fyd adnabyddus, llawer a ddarllenir am danynt yn *Plutarch's Lives*, oeddynt yn byw yn Groeg. Pwy na chlywodd am Aeschylus, Sophocles, a Homer a'i chwareyddiaethau? Am areithiau a darlithiau cyhoeddus Demosthenes? Am y cerfddelwau prydferth a wnawd gan Phidias a Praciteles? Ac am y darluniau baentiwyd gan Apelles? Pwy na ddarllenodd am gyfreithiau doeth Solon? A deddfau llym Lycurgus? Yr holl bersonau hyn oeddynt yn byw yn Groeg; a phan oresgynwyd eu gwlad gan y Rhufeiniaid, y rhai hyn a anfonasant eu gwyr ieuainc i Athen ac i Corinth, i gael eu hyfforddi yn mhob gwybodaeth; a phan y byddai rhai o'r Groegiaid dysgedig yn ymweled â Rhufain, ymddygid tuag atynt gyda'r parch mwyaf heb wahaniaeth, fel yr oedd y Rhufeiniaid wedi eu darostwng gan y Groegiaid, yn hytrach na'r Groegiaid gan y Rhufeiniaid. Groeg a ranwyd gan y Rhufeiniaid yn ddwy dalaeth, Macedonia ac Achaia. Macedonia y dalaeth yn cynnwys Macedonia Briodol, Epirus, a Thessaly. Yn Achaia, yr oedd Groeg Briodol a Peloponnesus. Unwaith yn unig y sonir am Groeg yn y Testament Newydd, Act. xx. 2, lle yr ymddengys i ddynodi y dalaeth. Sonir am Macedonia amryw weithiau yn Llyfr yr Actau. I'r wlad hon y cafodd Paul ei wahodd gan y dyn a welodd yn ei freuddwyd, i ddyfod drosodd a chynnorthwyo y bobl; i'w cynnorthwyo allan o'u ystad prudd o dywyllwch, i oleuni dedwydd Cristionogaeth. Philippi oedd prif dref y parth deheuol. Yn y lle hwn cafodd Paul a Silas eu fflangellu, a'u gosod yn ngharchar, y lle y cymmerodd troedigaeth ceidwad y carchar le; ac at Gristionogion y cyfryw le yr ysgrifenodd Paul ei epistol, pan oedd yn ngharchar yn Rhufain. Thessalonica, prif dref Macedonia oll, oedd borthladd o fasnach helaeth, mewn llynclyn o fôr yn yr Aegean Fôr, gelwir ef yn awr

Saloniki. At y Thessaloniaid yr ysgrifenodd Paul ddau epistol, a'r epistolau hyn a dybir oedd y cyntaf a ysgrifenodd at yr eglwysi. Yn Thessalonica, yr Iuddewon a'r paganiaid a erlidiasant Paul a Silas yn fawr iawn. O'r lle hwn yr aethant i Berea, o gylch deugain milldir i'r rhan orllewinol. Y Bereaid oeddynt chwilwyr Yrgrythyrau yr Hen Destament, i edrych a oedd geiriau Paul wedi eu dwyn allan o'r ysgrifeniadau hyny, a llawer o honynt a gredasant. Ar gyfrif hyn yr oeddynt yn fwy galluog na y rhai hyny o Thessalonica. Nid oes yn wir ddim mwy ardderchog na chwilio am y gwirionedd, yn neillduol gwirionedd yr efengyl. Rhaid i ni chwilio am dano fel am drysor cuddiedig. Wrth chwilio felly, cawn afael arno; ac wedi hyny, byddwn barod bob amser i roddi ateb am y gobaith sydd ynom. Athen, y fwyaf enwog o ddinasoedd Groeg, ac ar yr amser hwnw, y fwyaf dysgedig yn y byd; a adeiladwyd ar ôrynys fechan yn nehau-ddwyrain Groeg. Yr Atheniaid oeddynt y bobl fwyaf moesgar mewn hanes, cymmeradwy mewn boneddigeiddrwydd. Yr oeddynt yn llawn bywiogrwydd a chywreinrwydd, ac yr oeddynt yn barhaus yn ymchwilio ar ol pob peth oedd newydd. Yr oeddynt yn treulio eu hamser, meddai St. Luc, yn clywed neu adrodd rhywbeth newydd. Paul a aeth i blith y bobl ymofyngar hyn, ac a ryfeddodd i weled dynion, pa rai oeddynt yn honi doethineb, mor ffol ag addoli cynnifer o eilundduwiau. Ymdrechai ddwyn y bobl hyn i wybodaeth o'r unig wir Dduw; efe a gafodd fyned o flaen y barnwyr i roi eglurhâd o'i athrawiaeth. Y lle y cafodd fyned oedd yn cael ei alw yr Areopagus, yr un a Mars' Hill, oblegyd teml i'r duw Mars oedd wedi ei adeiladu yno. Y barnwyr oedd yn cael eu galw yn Areopagiaid, ac, fe ddywedir eu bod yn treio dynion yn y tywyllwch, fel na fuasai golwg y carcharorion a'r cyhuddwyr, ddim yn dylanwadu ar y barnwyr. Ond nid yw yn debygol i Paul draddodi yr araeth alluog hono a ddarllenir am dani yn y 17eg o Actau yn y tywyllwch. Athen sydd etto yn brif ddinas Groeg, ac yn ddinas fawr iawn, a dinas hyfryd, ond dim mewn cymhariaeth i'r hyn oedd pan fu yr Apostol Paul yno. Y mae niferi o weddillion hyfryd y ddinas henafol i'w gweled yn bresenol. Parth deheuol o Groeg Briodol sydd ôr-ynys a elwir Morea, oddiwrth niferi mawr o goed môrwydd sydd yn tyfu yno. Mewn hen amser yr oedd yn cael ei galw yn Peloponnesus. Y mae yn cyffinio â'r Cyfandir gan wddf-dir Corinth. Corinth oedd ddinas loddestgar, ac ar y gwddf-dir hyn, yr oedd campau o redeg, dyrnodio, ymafliad, yn enwog unwaith bob tair blynedd, ac yr oeddynt yn cael eu galw yn *Ishmian Games*. Y bobl a ymgyrchent yno o bob parth o Groeg, ac o wledydd ereill, i gymmeryd rhan, neu i weled y campau hyn. Y sawl oedd yn ennill y fuddugoliaeth a wisgid a choron o ddail, yr hon a feddylid oedd yn nod o anrhydedd buddugoliaeth. Yr Apostol Paul a fu yn aros blwyddyn a hanner yn Corinth, efe wedi hyny a ysgrifenodd ddau epistol at y Corinthiaid, yn y rhai y mae rhai cyfeiriadau prydferth at y campau. Trigolion Corinth oeddynt bobl afradlon iawn. Yn y ddinas fe wnawd cymmysg o feteloedd a elwid prês Corinth. Y prês hwn oedd yn cael ei gyfrif yn fwy gwerthfawr nag aur.

Cyf. Eiddil Cynon.

CYFRAITH Y TARW A'R BAD.

Cyfraith yw cyfraith—cyfraith yw cyfraith; ac fel y cyfryw, ac felly yn y blaen, a chan hyny, ac fel y dywedwyd, etto, er hyny. Y mae cyfraith fel dawns wledig—arweinir pobl i fyny ac i lawr ar hyd-ddi nes y b'ont wedi blino. Y mae cyfraith fel llyfr meddygaeth—cynnwysa lawer o achosion anobeithiol. Y mae hefyd fel meddyginiaeth—goreu i gyd pa leiaf a gymmerir. Y mae cyfraith fel boneddiges gartrefgar, yn dda iawn i'w chaulyn. Y mae hefyd fel gwraig annynad—yn ddrwg pan yn ein canlyn ni. Y mae cyfraith fel ffasiwn newydd—y mae pobl yn ynfydu am fyned iddi. Y mae hefyd fel tywydd garw—y rhan fwyaf yn falch pan ddiweddo.

Crybwyllaf yn awr am achos a ddaeth o'm blaen unwaith, "Bâd *versus* Tarw." Yr oedd yr achos fel y canlyn:—Yr oedd dau ffermwr: Ffermwr A. a Ffermwr B. Yr oedd Ffermwr A. yn feddiannawl neu yn berchenogawl ar darw: yr oedd Ffermwr B. yn feddiannawl neu yn berchenogawl ar fâd. Yn awr, darfu i berchenog y bâd ar ol rhwymo ei fâd wrth bost ar y lân â rheffyn gwair, fyned i'r lân i'r dref i giniaw, fel ag yr oedd yn naturiol iawn i ddyn newynog wneyd; darfu hefyd i darw Ffermwr A., (fel ag yr oedd yn naturiol iawn i darw newynog wneyd) ddod i lawr i'r dref i edrych am giniaw, ac wrth sylwi, dargan-fod, ac yspio, gwelodd yn ngwaelod y bâd ryw ychydig o faip. Yna darfu iddo ymgripio i'r bâd, a bwyta y maip, ac i gwblhau ei giniaw, bwytaodd y rheffyn gwair hefyd. Wedi i'r bâd fel hyn gael ei fwyta yn rhydd oddiwrth y lân, nofiodd i lawr yr afon gyda'r tarw ynddo; tarawodd yn erbyn craig; tyllwyd gwaelod y bâd, a thaflwyd y tarw dros y bwrdd. Ar hyn, dygodd perchen y tarw gynghaws yn erbyn y bâd am fyned ymaith â'r tarw; a dygodd perchen y bâd gynghaws yn erbyn y tarw, am redeg ymaith â'r bâd; ac fel hyn rhoddwyd rhybudd o'r prawf Bâd *versus* Tarw—Tarw *versus* Bâd.

Yn awr, dechreuodd cyfreithiwr dros y tarw drwy ddywedyd, "Fy arglwydd, a chwithau foneddigion y rheithwyr, fi yw'r cyfreithiwr dros y tarw yn yr achos hwn. Cyhuddir ni o fod wedi rhedeg ymaith â'r bâd. Yn awr, fy arglwydd, yr ydym wedi clywed am geffylau yn rhedeg i ffwrdd, ond ni chlywsom erioed o'r blaen am darw yn rhedeg i ffwrdd. Yn awr, fy arglwydd, nis gallasai y tarw redeg ymaith â'r bâd yn fwy nag y gellir dweyd fod dyn mewn cerbyd yn rhedeg ymaith â'r ceffylau. Gan hyny, fy arglwydd, pa fodd y gallwn gospi yr hyn nid yw yn gospadwy? Pa fodd y gallwn ni fwyta yr hyn nid yw yn fwytadwy? Neu pa fodd y gallwn ni yfed yr hyn nid yw yn yfadwy? Gan hyny, fy Arglwydd, os bydd i'r rheithwyr gael fod y tarw yn euog; bydd y rheithwyr yn euog o darw."

Yn awr, sylwodd cyfreithiwr y bâd, y dylai y tarw gael ei ddihawlio—am nad oedd y dadganiad yn hysbysu lliw y tarw; ac fel hyn yn ddoeth a dysgedig y llefarodd:—"Fy arglwydd, os nad oedd y tarw o un lliw, yr oedd yn rhaid ei fod o ryw liw, ac os nad oedd y tarw o un lliw, pa liw allasai y tarw fod?" Darfu i mi oruwchreoli y cais

hwn fy hun drwy sylwi, mai tarw gwyn oedd y tarw, ac nad oedd gwyn yn un lliw, heblaw hyny, fel y dywedais wrthynt, ni ddylent drafferthu eu penau yn nghylch lliw mewn cyfraith, o herwydd gall y gyfraith liwio un peth.

Ar ol rhagor o ymdrafodaeth, profwyd mai llif yr afon a ddarfu gludo y bâd a'r tarw, ac felly rhyddhawyd y ddau. Ar hyny, dywedais fy mod o'r farn gan mai llif yr afon ddarfu gario ymaith y bâd a'r tarw, fod ganddynt eill dau sail dda i ddwyn cynghaws yn erbyn y *water-bailiff*.

Ar ol cael fy marn, dechreuodd yr achos. Yn union, cyfarfyddwyd a'r anhawsder hwn ?—Gan nad oedd y bâd yn greadur rhesymol, pa sut, pa fodd, a pha ddull; paham, pa beth, a pha bryd y gellid cael tystiolaeth ar lw? Setlwyd hyn yn fuan drwy i gyfreithiwr y bâd ddweyd ei fod ef yn barod i dyngu unrhyw beth dros ei *glient*.

Darllenwyd breinlen y *water-bailiff*, dyfynedig o'r cofnodion cyntefig; a ysgrifenasid mewn Lladin gwir gyfreithiol; a gosodid allan yn y dadganiad fod y tarw a'r bâd wedi cael eu cludo allan naill ai gan lif y llanw neu gan lif y trai. Ond yn awr mae'n dod i fanylder y gyfraith yn fanwl iawn; ac nis gellir ei deall gan bobl siolgrop a phenglwc. Yr oedd ochr y bâd ac ochr y tarw wedi crybwyll y trai a'r llanw, er atal ymddadleu. Ond profwyd na chafodd y bâd a'r tarw eu cludo allan ar y trai, nac ychwaith ar y llanw; ond rhwngy ddau. Gan hyny taflwyd yr achos allan, ond y fath oedd hynawsedd y llys, fel y rhoddwyd caniatad iddynt, (ond iddynt dalu yr holl gostau) i ddechreu wed'yn o newydd.

Cyf. D. R.

YR YSGOL SUL.

Gwersi: Addysgiadau Crist.

Rhybuddion.

Hydref 1.—Yn erbyn geiriau drwg.—Matt. xii. 31—37.
,, 2.—Yn erbyn esgeuluso dyledswydd.—Luc xii. 41—48.
,, 15.—Yn erbyn rhoddi tramgwydd.—Marc ix. 42.
,, 22.—Yn erbyn uchelgais.—Matt. xviii. 1—4.
,, 29.—Yn erbyn ffug anrhydedd.—Ioan v. 44.

Ffug Anrhydedd.

Ioan v. 44.—*Pa fodd y gellwch chwi gredu*, &c., gan gyfeirio, yn ol tyb rhai, at aelodau'r Sanhedrim. Yn yr adnod yma mae'n cyffwrdd ag un o'r rhwystrau mwyaf i'w weinidogaeth yn mhlith yr Iuddewon. Ceisient hwy anrhydedd y naill oddiwrth y llall. Yr oeddynt yn

uchelgeisiol. Edrychent am dywysog tymhorol yn eu Messeia, ac am orsedd a fyddai yn fwy gogoneddus nag eiddo Dafydd a Solomon. Yr oedd yr yspryd yma wedi eu gwneuthur yn falch ac yn wag-ogoneddus yn eu gweddiau a'u helusenau, ac yn awyddus am y lleoedd uwchaf mewn gwleddoedd, a'r prif gadeiriau yn y synagogau. O herwydd hyn yn benaf ni ddarfu iddynt roesawu yr Iesu hunan-ymwadol, isel, ysprydol, coron yr hwn ydoedd goron cyfiawnder, a'i gleddyf yn gleddyf yr yspryd, a gwobrwy uwchaf ei deyrnas, yr hon nid yw yn dyfod wrth ddysgwyl, ond sydd oddifewn, yn gynnwysedig yn yr ymwybodolrwydd o rinwedd, y pleser o wneuthur daioni ac ufuddhau i Dduw, a chroes merthyr er mwyn meistr dwyfol.—*Livermore.*

Yn y wers hon, ceisier dangos ystyr a phwysigrwydd cymhellyddion (*motives*), a pha gymmaint y mae gwerth gweithred yn dibynu ar yr hyn sydd yn ei chymhell, hyny yw, ar yr amcan sydd mewn golwg. Gwneler cyfeiriad at y gwahanol fathau sydd yn bod o gymhellyddion; eglurer a phrofer yr effeithiau gwahanol ar y cymmeriad, pan fyddont yn cael eu gwneuthur er sicrhau enw da yn mhlith dynion, neu er sicrhau cymmeradwyaeth Duw. Gall y rhai fyddont yn cael eu harwain gan y cymhellydd cyntaf wneuthur llawer o ddaioni, ond byddant yn agored i lawer o bechodau dirgel. O flaen y cyhoedd gwnant yr hyn sydd iawn, ond yn y dirgel feallai gwnant yr hyn nad yw iawn. Fel y Phariseaid, maent yn allanol yn dda, ond yn fewnol yn ddiffygiol ac yn anmhur. Yn y gobaith o beidio cael eu dal a'u dwyn i waradwydd, cyflawnant ddrygau bychain, y rhai ydynt yn fynych yn tyfu i fod yn bechodau mawrion. Felly, y mae ffuganrhydedd yn arwain i ddinystr moesol ac ysprydol. Yr oedd yr Iuddewon yn amser Crist, yn bryderus yn dysgwyl rhyw anrhydedd a dyrchafiad cenedlaethol allanol, ac ymwrthodasant ag addysg ysprydol yr Iesu, yr unig beth a allasai mewn gwirionedd eu hachub. Nid oes un math o ffug-anrhydedd a ddichon byth wneuthur dynion cywir. Y dymuniad i foddloni Duw yn unig a ddichon ein hachub oddiwrth bechod, a'n dyrchafu i burdeb enaid fel eiddo Crist.

Noder allan y cyfeiliornad mawr a wneir gan blant wrth wneuthur drwg er sicrhau cymmeradwyaeth eu cyfeillion. Dangoser ansicrwydd yr anrhydedd a ddaw oddiwrth ddynion. Llawer yn ei gael nad ydynt erioed wedi ei haeddu; rhai ag ydynt yn ei haeddu nad ydynt byth yn ei gael; a rhai ag ydynt wedi cael y mwynhad o hono, yn ddisymmwth yn cael eu hamddifadu o hono.

Nid felly y mae gyda'r anrhydedd sydd yn dyfod oddiwrth Dduw. Efe a wyr ddirgelion pob calon, ac a wna bob amser yr hyn sydd gyfiawn a chywir. Rhydd ei wobrwyon gyda pherffaith ddibartiaeth. Fel y dospartha'r haul ei belydrau dysglaer, mor sicr a hyny y mae gweithredoedd rhinweddol yn rhoddi i'r enaid ymwybodolrwydd o gymmeradwyaeth Duw. Mae hanes bywyd y Cardinal Wolsey yn rhoddi eglurhad da iawn ar bwnc y wers bresenol, yr hwn, wrth farw, a ddywedodd,—"Pe buaswn wedi gwasanaethu fy Nuw gyda hanner y sel yr wyf wedi gwasanaethu fy mrenin, ni fuasai yn fy henaint yn fy ngadael i ddwylaw fy ngelynion." P. M.

Adolygiad y Wasg.

Undodaeth, Ymddyddan rhwng dau gyfaill ar y Drindod, Person Crist, a phynciau sylfaenol crefydd, mewn cyssylltiad a Darlithiau y Proffeswr Evans, yn y Rechabite Hall, Bangor, Mehefin 15 a 16, 1876, yn nghyd a materion pwysig ereill. Bangor: Argraffwyd gan Nixon a Jones. Pris Ceiniog.

Mae pris y pamphledyn hwn mor isel fel y gall pawb a ewyllysio anfon am dano a'i ddarllen drosto ei hun. Yr ydym ni wedi ei ddarllen gyda chryn lawer o ddyddordeb, ac yr ydym yn gobeithio y bydd yn foddion i ryw raddau i ledaenu egwyddorion crefydd rydd yn Bangor. Fel yma y mae'n rhoddi

"*Crynodeb o gredo y dyfodol.*"

1. Fod gan bob dyn hawl, a'i bod yn ddyledswydd arno i feddwl drosto ei hun ar bob pwnc crefyddol. 2. Mai cydwybod, rheswm, a galluoedd meddyliol dyn yw yr unig offerynau sydd ganddo i farnu pob pwnc. 3. Fod ein gwybodaeth am Dduw, fel pob gwybodaeth arall, yn cynnyddu yn barhaus, ac y dylai pob dyn gadw ei hun yn barod i dderbyn pob goleuni newydd fo'n debyg o'i arwain i gliriach golwg ar ei ddyledswydd mewn cyssylltiad â Duw, ac a'i gyflwr dyfodol. 4. Credwn mai un Duw sydd. 5. Credwn fod Duw yn Dad i holl ddynolryw yn ddieithriad. 6. Fel plant i'n Tad nefol, dylem ei garu Ef, a charu ein gilydd, gan wneyd daioni yn mhob cylch, *o gariad yn unig*, heb angen dylanwad ofn na gobaith i'n symbylu. 7. Gobeithiwn am anfarwoldeb o gynnydd parhaus mewn rhinwedd a daioni."

Mae'r awdwr yn perthyn i'r ysgol newydd, ac nid i'r hen, ac yn barnu fod Proffeswr Evans fel y Trindodwyr yn mhell iawn oddiwrth y gwirionedd. Dywed ei fod yn cael llawer o bleser wrth ddarllen pregethau a thraethodau Undodwyr fel Voysey, Moncure D. Conway a Theodore Parker; ei fod er's ugain mlynedd wedi ymwrthod â'r hen athrawiaethau am Dduwdod Crist, iawn anfeidrol, &c.; fod hyny wedi bod yn boen meddwl a gofid anrheithiol iddo, ac yn foddion iddo golli "cymdeithas brodyr a chwiorydd naturiol, colli cymdeithas y cyfarfod eglwysig, y cyfarfod gweddi a'r Ysgol Sabbothol, colli mwyniant hymnau peraidd Pantycelyn." Gallem feddwl nad yw am gael ei gyfrif yn Undodwr, am ei fod yn cyplysu yr Undodiaid gydag eglwysi Rhufain, Groeg, Lloegr, &c., a'r enwadau iawnffyddol ereill, fel amddiffynwyr "*llyfr anffaeledig* wedi ei ysgrifenu trwy orchymmyn a than awdurdod Duw," tra mae efe o'r tu arall yn credu nad yw yr Hen Destament "yn ddim amgen na llyfr ffaeledig yn cynnwys casgliad o hen ysgrifeniadau yr Iuddewon, tebyg iawn o ran ei gymmeriad i'r "Archæology of Wales?" a'r "Testament Newydd yn gasgliad o ysgrifeniadau sylfaenwyr Cristionogaeth, yn cynnwys, *efallai* lawer o hanesion cywir, a gwersi buddiol yn gymmysg a lluaws o ystraeon anhygoel

tuhwnt i fedr un dyn i'w profi." Tybia mai "isel iawn oedd ymddangosiad cyntaf dynolryw a'r ddechreuad eu gyrfa, eu bod wedi esgyn o ris i ris, nes cyrhaedd eu hardderchawgrwydd presenol, a'u bod yn prysur gyfodi i'r cyflwr dedwydd hwnw sydd wedi ei ragweled gan lygaid ffydd er's llawer oes, pan y bydd sancteiddrwydd i'r Arglwydd wedi ei ysgrifenu ar ffrwynau y meirch, a chyfiawnder yn llenwi y ddaear fel y toa y dyfroedd y môr."

Caniadau Dafydd Morganwg. Llyfr I. Hirwaen: Argraffwyd gan yr Awdwr. 1876. Pris Swllt.

Mae dau beth ag y mae Cymro yn hoff o honynt—canu da, a barddoniaeth dda. Ac y mae tuedd pob un o'r ddau yn bob peth ag y gellir ddymuno. Cynnyrchant y pleserau puraf, gwresogant y teimladau, purant y chwaeth, a thueddant i ddyrchafu a choethi y cymmeriad. Tueddir ni gan hyny i gredu mae peth hapus yw'r duedd yma sydd ynom i ganu a darllen barddoniaeth. Camsyniad a wneir genym fodd bynag yw ystyried ein hunain i gyd yn feirdd; camsyniad mawr ydyw hwn, a chamsyniad sydd yn arwain i lawer iawn o wastraff amser a gwastraff arian. Nid atebai fawr pwrpas chwaith ein bod i gyd yn feirdd—cenedl o feirdd, cenedl o bobl dlodion yn ddiamheu.

Llai o wau rhigymau fo,
A mwy o wau ar wlanen,

meddai Ceiriog, ac y mae cynghor Ceiriog yn gall. Gwnawn farddoniaeth yn un o bleserau bywyd—yn ddifyrwch hamddenol, ond nid yn waith bywyd. Ceisiwn linellau newyddion i'n gweithgarwch, amcanwn at enwogrwydd mewn cylchoedd fo'n ateb yn well i'n galluoedd. Ceisiwn fod yn oreu y gallwn bob amser yn y cylch y byddwn yn troi ynddo. Felly y daeth yr anrhydeddus D. Davies, M.P., yn y blaen, meddai efe. Ei awydd pan yn llifiwr oedd bod yn "*top sawyer*," ac yn mhob cylch ei ymgais o hyd oedd bod y goreu yn y cylch hwnw. Clywsom fod Dafydd Morganwg wedi ysgrifenu yr oll o'i Ysgol Farddol dair gwaith cyn ei anfon i'r wasg. Yr oedd wedi penderfynu iddo fod y goreu y gallai efe ei wneuthur, ac y mae'r cyhoedd wedi gwerthfawrogi ei lafur, fel y mae galw cyffredin am argraffiad newydd. Ysgrifenodd un gwr enwog lyfr mawr unwaith mewn chwech wythnos. Ychydig neu ddim a gostiodd iddo o drafferth, ac fel mae yn naturiol casglu meddai Todd, yn ei "Students' Manual" *dim* yw ei werth. Dyma fel y mae rhai pobl ieuainc weithiau, treuliant bum munyd, neu bum munyd a hanner feallai, mwy neu lai, i ysgrifenu rhigwm o farddoniaeth, ac yn union y maent yn barod i synu a phensyfrdanu'r byd ag ef. Gwyn wrth gwrs y gwel pob mam ei chyw, ond rhag bod yn destyn gwawd; byddai yn ddoeth i bobl ieuainc i beidio bod à gormod o frys i ruthro i'r wasg. Mae'r byd wedi gallu myned yn y blaen hyd yma, yn drwsgl digon tebyg, heb eu cynnyrchion, a dichon y gall fyned yn y blaen yn rhywfodd etto, tra y byddont hwy yn aros

blwyddyn neu ddwy er cael gweled beth ydyw gwerth eu cynnyrchion. Os ydynt yn dda nid ydynt yn debyg o waethygu o'u cadw ychydig; os ydynt yn ddiwerth byddant yn ddiolchgar eu bod heb weled goleu dydd. Fel hyn y dywedodd Douglas Jerrold unwaith wrth ddyn ieuanc oedd yn awyddus iawn am weled ei enw mewn *print*: "Cymmerwch gynghor genyf fi ddyn ieuanc, peidiwch tynu'r *shutters* i lawr, cyn y byddo genych rywbeth yn y ffenestr."

Mae'n hyfrydwch mawr genym i gymhell i sylw ein darllenwyr 'Ganiadau Dafydd Morganwg.' Cynnwysant lawer iawn "o wir ryw-iog fflamiau'r awen, a phrydyddol ddenol ddawn." Gobeithiwn y bydd cymmaint o alw am y Rhifyn cyntaf hwn ag a'i calonoga i gy-hoeddi y rhifynau creill. Ystyriwn fod yr Awdl ar Henaint yn dda, rhanau o honi yn dda iawn. Wele enghraifft:—

Arwydd henaint ar ddynion—a naddir
Gan flynyddau meithion;
A gwelir mai cleidai gwaelion
Ydyw eu cyrff yr adeg hon.

Tŷ o bridd ! ie, tŷ brau.—yw annedd
Yr enaid i'w seiliau:
Ber yw ei oes i barhau,—
Oferedd bostio'i furiau.

Llaw drom amser fyn gerfio—ei hardeb
Mewn cywirder arno:
A'i naddiad wna heneiddio
Ei lwyd wedd, o'i sail i'w do.

Ac etto:—

Nen y tŷ sy'n dwyn nod hen,—
Tolcia henaint y talcen

Ac yn ei dalm y pren almon,—wisga
Ei ysgafn hardd goron
O geinwych flodau gwynion
Yn deg urdd i'r adeg hon.

Neu y tŷ gyll y to gwallt,
Fel y daw'n foel a diwallt.

A nychu wna y iechyd,
A'n wanach, wanach o hyd;
Yna daw yn y diwedd,
O law'r byd i wely'r bedd.

Yr oeddym wedi nodi amryw ddarnau creill i'w dyfynu, ond ni chaniata ein gofod ond i'r un pennill hwn yn ychwaneg allan o ddernyn gwobrwyedig ar "Nid aur yw pob peth sy'n dysgleirio." Cynghorwn ein darllenwyr i brynu a barnu drostynt eu hunain.

Pan fyddo ffurfafen ein bywyd yn glir,
A llachar haul llwydd yn tywynu,
Bydd rhif ein cyfeillion yn aml yn y tir,
A gwnant ein llon-gyfarch dan wenu:
Ond os bydd i dymhestl i'n hawyr grynhoi,
A duon gymmylau ein cuddio,
Ceir gweled y lluaws ar unwaith yn ffoi,—
"Nid aur yw pob peth sy'n dysgleirio."

MESUR ADDYSG ELFENOL 1876.

Mae'r gyfraith newydd uchod, yr hon a fydd yn dyfod i rym ar y cyntaf o Ionawr 1877, yn cynnwys pethau ag ydynt yn galw am sylw neillduol rhieni plant yn gystal ag ereill ag ydynt mewn unrhyw ffordd yn cymmeryd plant i'w gwasanaeth. Yn ol y gyfraith newydd

Mae n rhaid i rieni pob plentyn beri fod y cyfryw blentyn yn cael addysg elfenol priodol mewn darllen, ysgrifenu, a rhifyddiaeth, ac os esgeuluant y ddyledswydd hono byddant yn agored i gosp.

Nis gall neb ar ol y cyntaf o Ionawr, gymmeryd i'w wasanaeth un plentyn a fyddo dan ddeg oed; nac un a fyddo yn ddeg neu dros hyny, os na fydd wedi derbyn tystysgrif *(certificate)* ei fod i fyny â'r safon mewn darllen, ysgrifenu, a rhifyddiaeth elfenol, neu ei fod wedi gwneuthur yr *attendance* dyladwy mewn ysgol briodol, &c.

Bydd pwy bynag a gymmero i'w wasanaeth unrhyw blentyn yn groes i'r gwiraith hon, yn agored i ddirwy *(fine)* o ddim dros ddeugain swllt. Mae'r eithriadau fel y canlyn: (1.) Os bydd cartref y plentyn yn ddwy filldir a thros hyny o bellder ar hyd y ffordd nesaf. (2.) Os bydd y cyfryw wasanaeth yn y gwyliau neu ar oriau ag na fyddont yn rhwystr i'r plentyn fyned i'r ysgol, a bod y plentyn yn derbyn y cyfryw addysg trwy *attendance* rheolaidd am gyflawn amser mewn ysgol briodol *(certified efficient school)* neu ynte mewn ffordd arall a fyddo yn gwbl mor effeithiol, &c.

Fe wel rhieni ystyriol yn union ei fod o'r pwys mwyaf iddynt beidio esgeuluso addysg eu plant. Nis gallant anfon eu plant i un gwasanaeth cyn eu bod yn ddeg oed, ac nis gallant gael neb i'w cymmeryd i'w gwasanaeth ar ol eu bod yn ddeg os na fyddant wedi cael y *certificate* priodol.

YSGOL GAN Y DIACON.

"Yr wyf yn myned i weled a allaf fi gychwyn ysgol gan," meddai un dyn fel y safai yn gwisgo ei got fawr, ac yn gosod ei hun mor gynhes ag y medrai ar noson ddu oer a garw yn nyfnder y gauaf.

"Ysgol gan!" ebe y wraig, "aut y gellweh *chwi* wneyd hyny?"

"Yr wyf wedi clywed am weddw fan draw, mewn cyflwr cyfyng a thlawd iawn. Y mae ganddi bump o blant bychain, ac y mae dau o honynt yn sâl, ac nid oes yn ei meddiant nac ymborth na thân. Felly y dywedodd Thomas Jones, o Gwmgobaith, wrthyf y prydnawn yma, a meddyliais ynwyf fy hunan y dylwn fyned i ymweled a hi yn ei chyflwr diamgeledd ac anobeithiol."

"Cerddwch yn enw pob peth sydd dda," ebe ei wraig wrtho, "na chollwch ddim amser. Os ydynt yn sefyll yn y fath angen gallwn eu cynnorthwyo ychydig. Ond ni allaf fi weled pa gyssylltiad sydd rhwng hynyna ag ysgol gân. Ond na ofelwch, nid oes eisiau i chwi aros i ddywedyd wrthyf yn awr, ewch yn fuan a gwnewch yr oll a alloch i'r wraig dlawd."

Felly yr aeth y gwr allan ar nos oer a garw yn nyfnder y gauaf, tra y troai y wraig at y tân, a'i phlant oeddynt yn cysgu yn dawel yn eu gwelyau á gwenau ar eu gwynebpryd, ac a gruddiau oeddynt yn profi yn amlwg ddigon nad oeddynt hwy yn sefyll mewn angen am ddim da ar dywydd mor arw ac oer. Gydag yspryd diolchgar meddyliai am ei bendithion, fel yr eisteddai i lawr i gywiro dillad ei hanwyliaid. Gweithiai yn fissi ac yn dawel, a myfyriai gyda llaw ar yr hyn allai fod meddwl ei phriod wrth ddywedyd ei fod yn bwriadu cychwyn ysgol gân. Ysgol gân a'r weddw! rhyfedd iawn! Pa gyssylltiad possibl all fod rhyngddynt?

Yn y diwedd teimlai yn flinedig wrth feddwl am y pwnc dyryslyd, a dywedodd wrthi ei hunan, "Ni aflonyddaf fy hunan yn rhagor yn ei gylch. Fe ddywed ef bob peth wrthyf pan ddel adref. Yr wyf yn gobeithio y byddwn yn alluog i gynnorthwyo y weddw a pheri i'w chalon "ganu gan lawenydd." "Dyna!" gwaeddai allan, "ai hynyna mae yn feddwl? Calon y weddw yn canu gan lawenydd. A fuasai hyn yn ysgol gân? Rhaid taw hyn mae yn feddwl; ac y mae yn hollol naturiol iddo ef i osod allan ei feddwl mewn ymadrodd o'r fath. Onid rhyfedd i mi ddiongli y peth!" Ac yna gwenodd wrth feddwl ei bod mor ffortunus a chael allan feddwl John. Gan gymmeryd i fyny ei gwaith drachefn, gweithiodd yn egniol gyda gwen siriol ar ei gwynebpryd, fel y meddyliai drachefn a thrachefn am eiriau ei phriod, a chanlynodd ef mewn dychymyg, yn ymweled â'r tlawd, ac yn gweini at eu hangenrheidiau. Yn mhen ychydig amser treiglodd dau ddeigryn gloew dros ei gruddiau, dagrau o lawenydd pur y rhai a dynwyd allan o ffynnon ddwfn ei chariad at ei gwr, am yr hwn ni feddyliai ragor erioed nag ar y foment hon. Yr oedd erioed wedi ei garu ond teimlai fod ei chariad yn cynnyddu ac yn dwyshau ato yn awr.

Pan glywodd swn trwst traed gyntaf, neidiodd i agor y drws.

"Oh, John, a ddarfu i chwi gychwyn yr ysgol gân?"

"Meddyliwyf taw do," ebe y gwr can gynted ag y gallasai yngan gair; "ond yr wyf yn ymofyn i chwi ddysgwyl am wlanen a phethau ereill i'w chadw i fyny."

"Oh, gwnaf, mi wnaf; yr wyf yn gwybod yn awr beth ydych yn feddwl. Yr wyf wedi meddwl y peth allan. Gwneyd i galon y weddw i ganu gan lawenydd ydyw eich ysgol gân. Y fath waith gwerthfawr a chyssegredig, John! 'Crefydd bur a dihalogedig yw ymweled á'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd.' Mae fy nghalon fy hun wedi bod yn canu gan lawenydd trwy y prydnawn oblegyd eich gwaith da chwi, ac nid wyf yn golygu eich gadael chwi i'w wneuthur wrthych eich hunan. Yr wyf am dynu allan beth o'r *music* rhyfeddol yna."

Buasai llawer calon yn well pe gallesid cychwyn ysgol gân ynddynt. Bydded i ti, ddarllenydd, a minau, wneyd yr oll a allom yn y cyfeiriad yma. Dichon y gall ereill afaelu yn y cyweirnod, a chynnorthwyo i chwyddo y gân, hyd oni fyddo i galon llawer gweddw gael ei chyssuro, a llawer amddifad gael ei borthi a'i ddyddanu.

L. J. K.

Hanesion.

Yr ydym yn clywed fod un Mr. Manning, gwr ieuanc o Goleg Manchester New, yn debyg o gael galwad i weinidogaethu yn Abertawe fel olynydd i Mr. Higginson.

Deallwn fod Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, wedi gorphen adgyweiriad yr ysgoldy perthynol iddynt. Yr oedd y gost yn rhywbeth dros ddau cant o bunnau.

Dywedir y bydd Coleg Caerfyrddin yn agor y *term* nesaf gyda rhywbeth tua 45 o fyfyrwyr. O'r rhai hyny nid oes ond dau yn Undodiaid.

Mae'r "Christian Register" papur Americanaidd, yn rhoddi gair uchel i adroddiad y Parch. D. L. Evans o'i lafur yn Ngogledd Cymru.

Dydd Llun, Hydref 2il, cynnelir Gwyl De gan gyfeillion yr Ysgol Sul yn Dowlais, yn *long room* y "Camford Inn." Clywsom fod dros 400 o docynau wedi eu gwerthu eisoes.

Cododd cynnulleidfa y capel Seisneg yn Aberdar, dŷ byw i'w gweinidog yn ddiweddar, gwerth 600 o bunnau, ac y mae yn eu bwriad i godi ysgoldy iddo yn union etto. Dyma esampl werth i ereill i'w dilyn.

Cynnaliwyd Gwyl De Flynyddol Cefncoed, Medi 4ydd, ac er fod y tywydd hytrach yn annymunol, trodd allan yn hollol lwyddiannus. Yr oedd cyngherdd yn yr hwyr, a bu yno beth cystadleuaeth pan y dyfarnwyd amryw wobrwyon i'r ymgeiswyr buddugol.

Da genym ddeall fod y cyfeillion yn y Cwmbach yn parhau yn effro, ac yn edrych at y dyledswyddau sydd yn orphwysedig arnynt. Maent yn awr yn cynmeryd mesurau i bennodi ymddiriedolwyr newyddion ar y capel. Peth pwysig gwneuthur peth felly *mewn pryd*.

Dywed y "Christian Life" fod Mr. Ceredig Jones wedi bod yn pregethu un Sul yn ddiweddar yn y boreu a'r hwyr yn nghapel yr Annibynwyr Seisnig yn Nghaerfyrddin. Da genym weled ychydig o yspryd rhyddfrydig yn cael ei ddangos yn rhywle. Gellid barnu oddiwrth ymddygiad pobl Llanelli nad oes gan Undodiaid ddim hawl i agor eu geneuau. Gobeithiwn nad yw pobl dda Caerfyrddin ddim yn un modd wedi peryglu ei hunain trwy'r arwydd newydd yma o'u teimlad da.

Mae un Dr. Petewel wedi cyhoeddi llyfr yn ddiweddar, gyda rhagymadrodd gan R. W. Dale, dan yr enw "Yr Ymdrech am Fywyd Tragywyddol; neu, Anfarwoldeb y cyfiawn a graddol ddiddymiad y drwg, yn dangos fod anfarwoldeb, yn lle bod yn etifeddiaeth naturiol dyn, yn wobrwy i ymorchestu am dani, a'i cheisio trwy ffydd yn Nghrist a dyfal barhad mewn gwneuthur daioni; a bod yn y diwedd oroesiad o'r addasaf (survival of the fittest) ar gyfer bodolaeth dragwyddol, tra mae pechaduriaid fo wedi ymgaledu yn tynghedu eu hunain i ddarfodedigaeth truenus, ac yn y diwedd i ddiddymiant."

Mae rhywun yn cynnal "cyfarfodydd neillduol i blant" tua Rhyl a Llandudno, a dywedir eu bod yn boblogaidd iawn. Mae canu yn gwneuthur i fyny ran fawr o'r gwasanaeth. Dysgir y plant mae camsyniad yw'r dyb fod Duw yn Dad i bawb, fod y byd wrth natur yn Undodiaid, ac nad yw Duw ddim yn Dad ond i'r cyfryw ag ydynt wedi eu dwyn at Grist. Felly dysgir y rhai ieuainc yma yn foreu i fod yn Phariseaid, ac i ystyried eu hunain yn wrthddrychau neillduol gofal a chariad y Tad Mawr. Maent hwy wrth gwrs o rifedi yr etholedigion. Dysgir Mohametaniaid o'r tu arall mae hwynthwy ydynt "bobl neillduol" a "ffafr-ddynion" y Goruchaf. Beth yw'r gwahaniaeth?

YR ONENFAWR, GER LLANDILO.—Dydd Sul, Medi 10, 1876, talodd Ysgol Sul Gellionen, ei hymweliad blynyddol â'r capel uchod, yn cael eu cludo mewn tuag ugain o gerbydau (y ffordd yn rhy bell ar draed.) Yr oedd caredigrwydd yr ardal y fath fel yr oedd pawb ar eu heithaf i roddi lle a bwyd i'r anifeiliaid, &c. Wedi cyrhaedd y capel, yno yr oedd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, wedi dyfod i'w cyfarfod. Efe ydoedd y cadeirydd. Dechreuodd Mr. Davies y cyfarfod, ac awd yn mlaen yn y drefn a ganlyn:—Adrodd Ioan xiv., gan W. Williams. Rhinwedd ac effeithioldeb gweddi, gan Mr. T. Thomas. Canu, Dyfodiad Brenin Sion, gan y cor. Adrodd Moses yn y Cawell, gan Miss M. Jenkins. Adrodd Colossiaid iii, gan Mr. N. Harries. Canu, Y Llysiau, gan y cor. Adrodd, Dylanwad rhodiad da, gan Mr. D. Davies. Dadleu rhwng y Gwrandawr a'r Gwrthgiliwr, gan Mri. L. a W. Thomas. Canu, Harling, gan y cor. Adrodd, Luc xv., gan Mr. John Hopkins. Adrodd, Jerusalem Nefol, gan Mr. W. Joseph. Canu, Teithio'r y'm dan faner Iesu, gan y cor. Adrodd, Cwyn y Cristion, gan Mr. D. W. Davies a'i gyfaill. Adrodd, Einioes, gan Mr. Lewis Hopkins. Adrodd, Yr Ysgol Sabbothol, gan Mr. W. Williams. Canu, Beth fydd y Cynauaf draw, gan y cor. Adrodd, Y Dyn Diog, gan Mr. T. Thomas. Adrodd, Ffarwel, gan Mr. N. Harries. Dadl, Yr Haul a'r Lleuad, gan D. Davies, a M. Jenkins. Canu, Northwood, gan y cor. Ymddyddan, Yr Esgeuluswr yn y fantol, gan bump. Canu, Preswylwyr y Graig, gan y cor. Adroddiad, gan Mr. Davies. Canu, I ti Arglwydd, gan y cor. Adrodd, Yr Efengyl, gan Mr. Lewis Hopkins. Canu, Caersalem, ar y 9fed emyn o'r "Pigion," gan y cor. Yn wir, Mr. Darllenydd, yr ydwyf yn yn credu ar air a chydwybod na chlywais well adrodd a chanu gan un ysgol erioed, a chyfrif yr oll drwyddo. Fy nghyd hen ysgolheigion Sul, tua'r Hen-dy-Cwrdd, Aberdar, cymmerwch yr *hint*. Yr ydwyf yn dywedyd hyn, gan mai gyda chwi yna, yr ydwyf wedi treulio fwyaf o fy amser. Nid rhyw hoff iawn wyf o ganmol, ond maddeuwch am y tro hwn, am nas gallaf ymatal. Yr ydwyf wedi clywed yr ysgol hon dair gwaith yn awr, yn ystod y tri mis diweddaf, sef yn Gellionen; capel y Wesleyaid, Pontardawe; a'r Onenfawr; ac yn gobeithio cael y fraint o'u clywed etto yn Saron, Rhydyfro, (Annibynwyr), cyntaf o Hydref; gan eu bod wedi cael eu gwahodd i dalu ymweliad. Mewn cyssylltiad â'r Onenfawr, dylaswn ddywedyd i ni gael anerchiadau gan y Parchedigion J. Evans, Gellionen, a J. Davies, Alltyplaca; yn nghyd a diolch i'r ysgol am ei hymweliad; ac i'r ardalwyr am ei chroesawi gan Mr. Job Davies, Llandybie. Goddefed cynnulleidfa yr Onenfawr i minnau, ar ran yr ysgol, a fy hunan, i ddiolch iddynt hwythau am y caredigrwydd a ddangosasant tuag atom.—DEWI IAGO.

Marwgofion.

Meh. 10, Margaret George, (neu fel ei hadnabyddid yn gyffredin "Pegi Siors" Golchyddes, Gadlys Road, 67 mlwydd oed. Yr oedd wedi bod yn glaf am rai misoedd, a dyoddefodd ei chystudd yn amyneddgar a dirwgnach, mewn cyflawn ymddiried yn noethineb y Duw mawr. Bu yn aelod ffyddlawn a diargyhoedd am lawer o flynyddau yn Hen-dy-Cwrdd, Aberdar.

Meh. 17, Sarah, merch Thomas a Letitia Gower, Cwmoernant, ger Caerfyrddin, yn 35 mlwydd oed. Y dydd Iau canlynol, claddwyd hi yn mynwent Capel Union Street, Caerfyrddin, pryd y gweinyddwyd gan Mr. George Evans, M.A., a'r Parch. Proffesswr Morgan, gweinidog y lle. Bu yn aelod rheolaidd am lawer o flynyddau yn eglwys Annibynol Union Street, lle y teimlir colled ar ei hol. Dygai fawr zel dros yr Ysgol Sul, o'r hon y gwnaeth ddefnydd da. Yr oedd yn berthynas agos i'r diweddar Dr. Lloyd, ac yn gyfnither i'r Parch. J. Lloyd Jones, gweinidog enwog gyda'r Undodiaid yn Janesville, U.D., America. Caffed ei rhieni oedranus, a'i brawd, a'i chwiorydd nerth i ymgynnal dan eu galar.

Gor. 2, o'r ddarfodedigaeth yn 23 ml. oed, David Evans, Penpompren, Llanwenog. Dyn ieuanc o rodiad hardd. Bu am flynyddau yn aelod selog gyda'r Bedyddwyr. Yn ol ei ddymuniad, claddwyf ef yn Aberduar, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog parchus yr eglwys yno.

Gor. 21, William Watkin Griffiths, mab Rees a Mary Griffiths (ac wyr i'r diweddar William Griffith Watkin) yn 6 mlwydd a 7 mis oed. Ni chafodd ond ychydig oriau o gystudd. Yr oedd y trancedig yn blentyn o dymher ddengar iawn, ac o ddeall tra chyflym a rhwydd iawn i ddysgu. Claddwyd ef yn y Gladdfa Gyhoeddus perthynol i Aberdar.

O ! mor brydferth yw'r blodeuyn,
Pan agora gyda'r wawr,
A'i lân wyneb heb frycheuyn,
I gymmylu'i degwch mawr ?
Megys blodau yn y drysni,
Yw dadblygiad plant i'r byd ;
Heddyw'n llawn o serchog dlysni,—
Fory'n gwywo'n llwyr i gyd.

Duw sy'n gwybod pryd i dori
Y rhosynau coch a gwyn ;
Peidiwn ninnau ynte sorri,
Pan fo'n Tad yn gwneuthur hyn.
Er eu colli dros ychydig
Cawn hwy'n ol yn ngwlad y saint ;
Am wel'd gwawr y dydd gwynfydig,
Diolch byth am hyn o fraint.

Cynonwyson.

Gor. 25, yn 93 mlwydd oed, Mrs. Rees, Caedabowen, Llanwenog. Hen wraig rinweddol ydoedd Mrs. Rees, a gair da iddi gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Claddwyd hi yn Alltyplaca, (lle y buasai yn aelod ffyddlon am dymhor maith) ac anerchwyd y dyrfa luosog a ddaethai yn nghyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Awst 4, wedi byr gystudd, yn 8 mlwydd oed, David, ail fab Evan ac Eleanor Thomas, Troedrhiw, Pencaereg. Gosodwyd gweddillion marwol y bychan i orphwys yn mynwent Eglwys Llanbedr, a chyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol yn y ty, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Awst 13, Mary, anwyl briod Mr. David Thomas, Gloucester St.,gynt o'r *Company's Shop*, Llwydcoed, Aberdar, yn 61 mlwydd oed. Yr oedd yn wraig a berchid gan bawb a'i hadwaenai, ac y mae ei phriod wedi colli cyfeilles hoff a chydmares anwyl. Caffed efe a'i fab a'i ferch y fraint o fod yn alluog i droi ato Ef sydd yn gallu dyddanu yr annyddannus.

Medi 7, o'r ddarfodedigaeth, yn nhy ei fam, yn Hirwain Road, Aberdar, Mr. Henry Jenkins, gynt o'r *Bell*, yn 34 mlwydd oed. Yn nhymor boreu ei oes bu yn fynychwr selog yn yr Hen-dy-Cwrdd, a'i alar mawr ar ei glaf wely oedd na buasai wedi parhau. Penderfynai os cawsai wellhad i fod yn fwy cysson yn y dyfodol.

Medi 12, yn 34 oed, ar ol graddol wanychiad am gryn fisoedd, Mr. Lewis Davies, Llawfeddyg, gynt o Gwmdyllest, ond yn awr o Penlone House, Llandyssul. Cawsai fanteision addysg rhagorol er yn blentyn, yn fwy felly am mai y bwriad oedd ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth yn mhlith yr Undodiaid. Ond er iddo dreulio tua phedair blynedd fel myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, darfu i farwolaeth ei frawd yn ngwanwyn 1862, a'i gyfansoddiad yntau ei hun nad oedd un amser wedi bod yn rhy gryf, ei dueddu i adael y Coleg, a dychwelyd adref i lafurio ar y fferm. Wedi treulio ychydig flynyddau yn amaethwr, ac ymuno mewn priodas â Miss Margaret Jones, o Benwern, Llandyssul, tueddwyd ef i droi ei fryd at phys ygwriaeth, ac ar ol bod am beth amser gyda Mr. John Jones, Llawfeddyg, Llandyssul, aeth i fyny i *Guy's Hospital*, Llundain, a phan wedi bod yno yr amser angenrheidiol, gyda blwyddyn arall yn Mhrifysgol Edinburgh, pasiodd yn llwyddiannus ei arholiad yn y *Royal College of Surgeons*. Wedi hyn bu yn dilyn ei alwedigaeth fel meddyg yn y Deri, yn agos i Gaerdydd, hyd nes iddo, agos i ddeunaw mis yn ol ddychwelyd i'w fro enedigol, ac ymsefydlu yn mhentref Llandyssul. Yr oedd yn dderbyniol a llwyddiannus iawn fel meddyg, ac ar y ffordd i ddyfod yn boblogaidd yn ei alwedigaeth. Un siriol ei dymher oedd, parod ei reswm, ewyllysgar i helpu caledi, llawn o egni a diwydrwydd. Ond er pob dawn a rhagoriaeth, ei haul a fachludodd ar hanner dydd. Ffyna cydymdeimlad dwys a'i briod hawddgar, a'i thri o rai bychain, yn gystal ag a'i fam oedranus yn ei galar chwerw. Profi a gaffont o nawdd Tad yr Amddifaid a Barnwr y Gweddwon, a thored arnynt oleuni nefol allan o gaddug cysgod angeu ei hun. Claddwyd ef yn Mhantydefaid. Gweinyddwyd yn y ty gan Mr. Thomas, y Llwyn, ac yn y capel gan y Parch. T. Thomas, gweinidog y lle.

Medi 13, o'r *inflammation*, Mr. William Richards, Saer-maen, Wind St., Aberdar, yn 57 mlwydd oed. Ni chafodd ond byr gystudd, dim ond ychydig ddiwrnodau. Bu yn aelod selog, ffyddlon a rheolaidd yn yr Hen-dy-Cwrdd am flynyddau lawer, a chymmerai ran helaeth tra bu, i ddwyn y gwaith da yn y blaen yn y lle, mewn amser, ac allan o amser. Yr oedd yn berchen ar gymmeriad dysglaer, yn ddyn diymhongar, ac yn barod bob amser i wneyd a allai dros achos crefydd, a gellir priodoli yr ymadrodd gogon-

eddus hyny iddo, "Yr hyn a allodd efe a'i gwnaeth." Bu yn athraw ffyddlon yn yr Ysgol Sul yn y lle am amser maith, a dangosai ffyddlondeb o'r mwyaf bob tywydd gyda'i ddosbarth i'w annog a'i hyfforddi 'nol ei ddeall gydag ymroad diysgog. Da fyddai pe disgynai ei fantell ar ereill i lanw ei le. Teimlir colled ar ei ol yn yr Ysgol Sul yn hir, yn y cwrdd gweddi, ac yn yr achos yn gyffredinol. Bydd ei le yn wag am dymhor, ond gobeithiwn yr enfyn Duw arall i lanw y bwlch, ac i gario y gwaith yn y blaen yn llwyddiannus yn y dyfodol. Y Gwener canlynol, daeth tyrfa luosog yn nghyd o bob gradd a dosbarth i'w hebrwng tua'i "hir gartref" yn y *Cemetery*. Awd i'r Hen-dy-Cwrdd wrth fyned heibio, pryd y cafwyd pregeth gan y Parch. W. James, B.A. Gadawodd unig fab ar ei ol, a gobeithiwn y bydd iddo ef ddilyn esiampl ei dad ac efelychu ei rodiad.

Ti ddiengaist William, do i'r bedd,
Lle byddwn bawb rhyw ddydd a ddaw,
Ti fuost ffyddlon yn dy ddydd
Dros achos Iesu Crist heb fraw;
Colli'th gyfeillach hoff sydd i ni'n wae,
Ond cryf obeithiwn etto gael cyd-gwrdd,
Mewn llawn orfoledd o'r hoff felus wledd
Tu fewn i'r llen o gyrhaeddbyd a'i dwrdd.

EIDDIL CYNON.

Medi 20, Baban i Rees a Mary Griffiths, Clive Place, Aberdar, tua chwech wythnos oed.

Barddoniaeth.

DIM OND DYSGWYL.

Gofynwyd i hen Gristion duwiol, yr hwn oedd mor llwm fel yr oedd yn byw yn y *work-house*, beth oedd yn wneuthur yn awr. Ei ateb oedd, "Dim ond Dysgwyl."

Dim ond dysgwyl i'r cysgodau
Estyn 'chydig tua'r hwyr;
Dim ond dysgwyl i belydrau
Ola'r dydd ddiflanu'n llwyr;—
Nes el nos y ddae'r o'r galon
Gynt oedd lawn o hyfryd ddydd;
Ac i'r sêr ymdori'n dirion
Trwy'r tywyllwch llwyd a phrudd.

Dysgwyl i'r medelwyr gludo
'R ysgub olaf tua thre';
Darfu'r hâf, awelon oerion
Hydref chwythant yn ei le.
Gwnewch fedelwyr frys i gasglu
Addfed oriau'n nghalon i,
Blodeu'm einioes sy'n diflanu
Brysio'r wyf ar gefn y lli.

Dysgwyl i'r angylion ddyfod
Ac i agor imi'n wir,
Y cyfrinborth, lle'r wy'n barod
Wedi dysgwyl amser hir.
Clywaf eisoes swn eu camrau,
A'u pell leisiau'n agoshau;
Dim ond dysgwyl clywed geiriau
'R alwad wyf—i ufyddhau.

Dim ond dysgwyl i'r cysgodau
Estyn 'chydig tua'r hwyr;
Dim ond dysgwyl i belydrau
Ola'r dydd ddiflanu'n llwyr;
Yna o'r caddug du'r ymgoda
Anniflanol sanctaidd sêr;
F' enaid wrth eu goleu deithia
'N llawen tua chartre'm Nêr.

ANON.

TUCHANGERDD

I'r Siaradwyr a'r Ysgrifenwyr hyny sydd yn arfer gorfeichio y Gymraeg â geiriau Saesonaeg.

Wfft i'r ynfydion hyny
Geir yn anurddo'n gwlad,
Y'nt wedi penderfynu
Nad yw eu hen iaith fâd
Yn ddigon dwfn a threiddiol
I'w meddyldrychau hwy
Ddysgleirio yn glasurol,
Heb siarad peth o'r ddwy.

Os daw meddyldrych grymus
I benau'r dynion hyn,
Er mwyn bod yn fawreddus (?)
Rhaid britho'r papyr gwyn
A llu o eiriau Seis'nig
(A geiriau *mawr* bob un),
Er mwyn i'r annysgedig
Ryfeddu dysg y dyn!

Os byddant mewn cymdeithas
Yn siarad ar ryw bwnc,
Wrth gwrs, iaith hoff eu hurddas,
Yn ol ei harfer, lwnc
Tua hanner eu sylwadau,
Fel na cha'r Cymry pur
Fawr goleu yn eu penau
Ar ol y ddarlith hir.

Tywyllwch yn dywyllach
A wnânt ar hyd eu hoes,
Anurddant bob cyfeillach
A'u ffasiwn wael ddifoes.
Eu dwylaw halogasant
Lenyddiaeth wech ein hiaith,
Drwy fympwy ffol rhoddasant
I'w gwyneb, lawer craith.

Yn wir, mae eu haflerwch
Yn fwrn ar gylla'r wlad
A'u rhodres falch yn hagrwch
Yn nghoron Cymru fad ;
Wrth geisio gwneyd cymmysgaeth
O Saes'neg a Chymraeg,
Bradychant anwybodaeth
Eu penau, yn mhob aeg.

Wrth wneuthur ffug-ddangosiad
Na ddichon iaith eu mam
Drosglwyddo nerth rhyw syniad
Ardderchog, yn ddinam,
Y craffus wêl yn eglur
Nad oes dan haul y nen,
Un iaith ddwg allan synwyr
O'r tryblith sy'n eu pen.

Nid *mawredd* eu syniadau,
Na'u *dwfn ddoethineb* chwaith,
Wna iddynt dori deddfau
A darnio'n hanwyl iaith,
Ond yspryd oer, estronol,
A gwagder yn y siol
Yw'r achos diammheuol
O'u hamryfusedd ffol.

Mae'r hen Omeraeg enwog
Yn fil rhagorach iaith,
Na'r Seisneg fain a charpiog,
A'i gwawdiodd lawer gwaith ;
Gan hyny, grach lenorion
Ymffrostgar, byddwch ddoeth,
Rho'wch wisg i'ch ymadroddion
Mewn iaith glasurol goeth.

MYFENYDD.

ENGLYN

I Mr. John Jones, Coedybrenin, fel meddyg anifeiliaid, buddugol yn Eisteddfod Ciliau Aeron, Nadolig, 1873.

Ni cheir gwell hwn i wella—anifail,
A anafwyd waetha' ;
"Coedybrenin," os blin bla—
Addefwn—myn ei ddifa.

Aberayron. GWLADWR.

ENGLYN

I bâr o egidiau a wnaed i mi gan Mr. John Griffiths, Crydd, Talsarn.

Ni luniwyd erioed lanach,—ni wisgais
Ddwy esgid amgenach,
Methais gael dwy esmwythach ;
Da i'n byd fod Ioan bach.

GWLADWR.

London House, Aberayron.

I FOBL BRIOD.

Os taflu pent'wynion yn gochion wna'r gwr,
Y wraig, hithau, tafled ystenaid o ddwr ;
Os un fydd yn drystfawr a bloeddfawr ryw bryd,
Y llall ymdaweled, gan fyned yn fud.

Y JERUSALEM NEFOL.

O Seion, ddinas euraidd
Yr hoff fendigaid lu ;
Myfyrio ar d' ogoniant
Ddistawa'm tafod i.

Nis gwn am faint llawenydd
Y rhai sydd yno'n byw ;
Na mawredd hardd ddysglaerdeb
Jerusalem fy Nuw !

Mae holl drigfanau Seion
Yn llawen gyda chân
Gorfoledd yr angylion
A'r llu merthyron glân.

A'r T'wysog Hedd sydd yno
Yn aros yn eu plith ;
A gwawl y cariad Dwyfol
Lewyrcha arnynt byth.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

YR YMOFYNYDD.

Os oes rhywrai am ol-rifynau Yr Ymofynydd, er gwneuthur i fyny eu cyfrolau, bydded iddynt anfon am danynt ar unwaith.

Y CWRDD CHWARTEROL

Nesaf a gynnelir yn Parc-y-felfet, Caerfyrddin, Hydref 4ydd a'r 5ed, y Parch. Dr. Vance Smith, prif-athraw Coleg Caerfyrddin, i bregethu yn Saesneg, a'r Parch. W. James, B.A., yn Gymraeg. Pwnc y Gynnadledd fydd: A ydyw cospedigaeth dragwyddol yn gysson â chymmeriad Duw? Dysgwylir y Parch. J. Davies, Alltyplaca, i ddarllen papur ar y pwnc.

HEN DY-CWRDD Y NOTTAIS.

Yn gymmaint a bod Capel y Nottais wedi myned yn rhy fach ac yn rhy anaddas i ateb dybenion y gynnulleidfa, yr ydys wedi penderfynu ei dynu i lawr i'w ail-godi yn yr un fan, ar ddull fyddo'n cydweddu yn fwy â chwaeth yr oes bresenol; ond gan fod y rhan amlaf o'r gynnulleidfa o amgylchiadau isel, ac yn analluog i gyfrannu fel y dymunent at y treuliau angenrheidiol, y maent dan orfod i appelio at haelioni a theimlad da eu cydgristionogion am gynnorthwy arianol i ddwyn y gwaith i ben. Mae amcan-gyfrif y draul at godi y capel yn nghyd ag ysgoldy yn £550, ac mae y gynnulleidfa wedi gwneyd i fyny yn eu plith eu hunain oddeutu £150. Yr ydys yn gobeithio y gellir agor y Capel newydd cyn diwedd y flwyddyn bresenol. Derbynir gyfraniadau gyda diolchgarwch gan y gweinidog—Y Parch. Titus Lloyd, Newton, Near Bridgend.

Yn awr yn barod, yr Ail Ran, Pris Ceiniog, neu Wyth Swllt y Cant,

PIGION O EMYNAU.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,
GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

THE CHURCH OF THE FIRST THREE CENTURIES; or Notices of the Lives and Opinions of some of the early Fathers with special reference to the Doctrine of the Trinity, illustrating its late origin and gradual formation. By Alvan Lamson, D.D. . . . With Notes by Ezra Abbot, D.D., LL.D., and Henry Ierson, M.A. London: British and Foreign Unitarian Association, 37, Norfolk Street, Strand, 1875. 482 pp.

Mae gan y Golygydd ychydig gopiau *(subscription copies)* o'r gwaith gwerthfawr uchod, ac y mae'n foddlon anfon copi yn ddidraul gyda'r *post* ar dderbyniad gwerth hanner coron o *stamps*. Ei bris gyda'r llyfr-werthwyr yw pum swllt.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.